


# ADRODDIAD BLYNYDDOL FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION 2016-2017

# ADRODDAID BLYNYDDOL FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION – 2016-17

Lluniwyd adroddiad blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol a Rheoliad 16 o Reoliadau Mynediad i Gen Gwald (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.

Mae'r adroddiad yn amlinellu gwaith y Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2016—2017 a'i raglen waith arfaethedig ar gyfer 2017—2018.

**SWYDDOGION Y FFORWM**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | John Morgan |
| Is-Cadeirydd: | Chris Belsey |
| Ysgrifennydd: | Eifion Jones (Cyngor Sir Ceredigion) |

**CYNNWYS**


RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD ……………………………………………..…….3
FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION………………………..…….…….4
CYFRANIAD ECONOMAIDD I MYNEDIAD …..…………………………………… 4
PRIF LWYDDIANNAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL 2016—2017...……...…..5
OL GERBYD Y CERDDWYR …………………………………………..……..6
CYFRANIAD GWIRFODDOLWYR……………………………………………………7
CERBYDAU HAMDDEN YNG NGHEFN GWLAD………………………………...8
EDRYCH YMLAEN I'R FFORWM NESAF……..……………………………………..9
RHAGLEN WAITH Y FFORWM, 2017 – 2018………………………………...10-11
AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL……………………………………...12
CEREDIGION: ARDAL FFORWM MYNEDIAD LLEOL……………………………..13




# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

Agwedd bwysig o'r flwyddyn fu y cynnydd da a wnaed gan Cyngor Sir Ceredigion tuag at lunio eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd. Mae'r Cynllun yma yn hanfodol i gynnal a gwella mynediad i gefn gwald yng Ngheredigion. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys Fforymau Mynediad Lleol (FfMLl) yn y gwaith, ac mae'n bleser i glywed fod Swyddogion y Cyngor yn cymeradwyo gwaith is-bwyllgor FfMLl Ceredigion a sefydlwyd am y pwrpas hyn.

Roedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy blaenorol yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu cynllun Mabwysiadu Llwybr. Mae'r cynllun yma yn galluogi unigolion neu grwpiau i fabwysiadu hawliau tramwy cyhoeddus ac i adrodd yn ôl yn rheolaidd ar cyflwr y llwybrau ac i gwblhau gwaith ysgafn i cynnal a chadw y llwybrau ble mae angen. Am nifer o flynyddoedd mae'r FfMLl wedi annog y Cyngor i weithredu y Cynllun yma ac mae'n braf gweld y Cynllun wedi'i sefydlu. Mae'r Cynllun wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn, efo dros 50 o wirfoddolwyr yn cofrestru, er mae gan y FfMLl targed o 200 o wirfoddolwyr. Un o bryderon y FfMLl ynglŷn a'r Cynllun yw  graddfa a cynaliadwyedd y Cynllun, ac fe fydd rhaid sicrhau fel y mae niferai y Cynllun yn tyfu fydd yr ochr gweinyddol yn gallu ymdopi. Mae cynaliadwyedd y Cynllun hefyd yn ddibynnol ar ymrwymiad y Cyngor i barhau efo'r cefnogaeth angenrheidiol i'r Cynllun.

Mae gan y Cynghorau Cymuned bwerau i gwblhau gwaith cynnal a chadw ar hawliau tramwy cyhoeddus, gall y gwaith hyn fod yn fuddiol i gyfrannu at cyflwr a defnydd y llwybrau.  Er y mae eithriadau, yn enwedig ymhlith y Cynghorau Tref, mae'r lefel o ddiddordeb ar gyfartaledd gan y Cymunedau Cyngor yn isel. Dros y blynyddoedd mae'r FfMLl wedi bod yn aflwyddiannus yn deall y problemau sydd yn arwain at diffyg defnydd o'i pwerau. Fe fydd y FfMLl yn parhau i weithio ar hyn fel rhan o'i rhaglen gwaith newydd.

Mae'r FfMLl wedi ystyried ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Symud Cymru Ymlaen: Rheolaeth Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol'. Byddai gweithredu'r camau yn y ddogfen yma yn newid hawliau mynediad y cyhoedd i gefn gwald yn sylweddol. Yn ei ymateb, ni wnaeth y FfMLl gefnogi'r defnydd o lwybrau troed gan marchogion na beicwyr. Nid yw'r fforwm hefyd yn cefnogi y cynnig i ddefnyddio llwybrau ceffyl am rasio beiciau na'r hawl i wersylla ar dir Mynediad Agored. Cytunodd y FfMLl y dylai cŵn fod ar dennyn byr yng nghyffiniau da byw. Fe dderbyniodd y fforwm y gall newidiadau i'r broses o dargyfeirio hawliau tramwy fod yn fuddiol. Roedd y FfMLl yn amheus o'r bwriad o ddibynnu ar côd ymarfer cyhoeddedig yn unig ar gyfer defnydd y hawliau newydd. Yn y hir dymor, mae'r cynigion yn y ddogfen yn rhai o materion mwyaf pwysig y flwyddyn.

Yn eu amser mae'r FfMLl wedi elwa'n fawr o bresenoldeb Swyddogion a Aelodau Cyngor, a hoffem ddiolch iddynt am eu cyfraniadau i'n trafodaethau ac hefyd hoffem ddiolch Eifion Jones, Ysgrifennydd y Fforwm.

John Morgan, Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion.



# FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION

Mae Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn cyflawni'r swyddogaeth o gynghori'r Awdurdod Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch gwella mynediad cyhoeddus at ddibenion hamdden a mwynhau bod yn yr awyr agored.

Cyfarfu'r prif Fforwm bum gwaith yn ystod 2016—2017

12[ed] Ionawr 2017
20[ed] Ebrill 2017
20[ed] Gorffennaf 2017
19[eg] Hydref 2017

Yn ogystal cyfarfu nifer o is-bwyllgorau i ystyried gwaith gwirfoddolwyr, cwynion am lwybrau a chyfleoedd cyllido posibl.

# CYFRANIAD ECONOMAIDD O MYNEDIAD

Yng Ngheredigion, mae mynediad i gefn gwald yn sylfaenol i thwristiaeth gweledig ac mae'r rhwydwaith o lwybrau yn ased economaidd allweddol.

Mae gwerth mynediad i gefn gwald ar lefel lleol wedi gael eu nodi efo'r esiampl isod:

Yn 2015 cofnodwyd 103,000 o bobl yn defnyddio y llwybr rhwng Aberporth a Tresaith gan cownter electronig. Yn ôl Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru (2014), mae arian yn cael eu wario ar 42% o holl ymweliadau a gymerir i'r awyr agored.

Mae cyfrifiad yn nodi y bydd 43,000 o bobl wedi gwario arian naill yn Aberporth neu Tresaith yn uniongyrchol o ganlyniad o gerdded y llwybr yma. Dyna 43,000 o gyfleodd i bobl gwario arian yn yr economi leol, na fyddai yn bodoli heb lwybr yr arfordir. Mae llwybr yr arfordir yn rhan bach iawn i gymharu efo'r rhwydwaith o lwybrau sydd o fewn y sir, i gerddwyr, beicwyr, marchogion a cerbydau fecanyddol.






# CYFLAWNIAD ALLWEDDOL Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL 2016 - 2017

Mae'r adran yma yn tynnu sylw ar gyflawniadau allweddol y Fforwm yn 2016 – 2017. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm yn rhoi cyfrif mwy manwl o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.







## HAWLIAU TRAMWY A MYNEDIAD

Mae'r FfMLl yn parhau i chwarae rhan bwysig yn rheolaeth strategol Hawliau Tramwy cyhoeddus, gan asesu yr Awdurdod gan gweinyddu rhwydwaith llwybrau sylfaenol. Mae Is-bwyllgor y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi cwrdd ddwy waith yn ystod y flwyddyn i edrych ar cwynion ar hyd lwybrau ac i helpu lunio datblygiad strategol o rhwydwaith Hawliau Tramwy.

Mae'r Fforwm Mynediad Lleol hefyd yn un o'r cyrff anstatudol yr ymgynghorir â nhw ynghylch Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus, gan gynghori ar y newidiadau i'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, megis newidiadau o ran eu haliniad.







## GWIRFODDOLI A MYNEDIAD I GEFN GWALD YNG NGHEREDIGION

Mae gan Cyngor Sir Ceredigion hanes hir o weithio efo gwirfoddolwyr o ran datblygu a chynnal Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r FfMLl yn awyddus i gefnogi'r ymdrech yma ac i archwilio cyfleodd lle gall hyn gael eu wella. Fe grëwyd Is-bwyllgor gan y ROWIP ar gyfer Gwirfoddoli. Cwrddwyd ddwywaith yn ystod y flwyddyn a paratowyd papur a wnaeth edrych ar sut mae amser y gwirfoddolwyr yn cal eu ddefnyddio ar hyn o bryd gan y cyngor a sut gall hyn gael eu ddatblygu ymhellach yn y dyfodol.

Mae'r Is-bwyllgor yma wedi dadansoddi'r data yn ymwneud efo ymdrechion y gwirfoddolwyr ar cynnal a chadw Hawliau Tramwy am y 6 mlynedd diwethaf. Fe wnaeth y gwirfoddolwyr cyfrannu yn gyfatebol i 1.3 aelod o staff ychwanegol a mwy na £66 mil o bunnoedd o waith pan mae wedi'i gosti ar y cyflog isafswm.

Mae ymdrechion gwirfoddolwyr Sir Ceredigion wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol efo tystysgrif Gymeradwyaeth Uchel yng Ngwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2016.

# ÔL GERBYD Y CERDDWYR



Ym mis Medi 2017 fe wnaeth gwirfoddolwyr Ramblers Cymru gyflwyno Cyngor Sir Ceredigion efo ôl-gerbyd newydd. Fe fydd hyn yn helpu y tîm hawliau tramwy yn fawr iawn efo'i dyletswyddau ar draws y Sir. Fe wnaeth gwirfoddolwyr y Cyngor ddod o hyd a sicrhau Cyllid o Gronfa 'Tools for Teams'; oddi wrth Y Cerddwyr Cymru. Mae'r cronfa yn darparu cefnogaeth i grwpiau o gwirfoddolwyr ymrwymedig sydd yn gweithio i gynnal a chadw Hawliau Tramwy. Mae rhai o gwirfoddolwyr y Cyngor wedi bod yn gweithio efo'r Ceidwaid am dros ugain mlynedd ac mae'r gwaith maent yn cwblhau yn cynnwys adeiladu pontydd a gatiau, torri gordyfiant a gwaith cynnal a chadw yn gyffredinol ar hyd y rhwydwaith o lwybrau o fewn y Sir.

Fe wnaeth Angela Charlton, Cyfarwyddwr Cerddwyr Cymru tynnu sylw at waith da gwirfoddolwyr y Sir gan ddweud "Yn yr amser yn rhedeg i fyny at Taith Gerdded Fawr Cymru ym Mhontarfynach, fe wnaeth ein gwirfoddolwyr ni gweithio yn ddiflino i cynnal a chadw ar y cyd efo gwirfoddolwyr Cyngor Sir Ceredigion i sicrhau fod pawb a fyddai yn cerdded y llwybr yn gallu cyflawni hyn mewn modd hygyrch a phleserus.

Y gobaith yw y fydd yr ol-gerbyd newydd yn gwneud gwaith y Ceidwyr a'r gwirfoddolwyr yn fwy hwylus ac yn galluog mwy o lwybrau i gael eu cynnal a chadw.

Fe wnaeth y trosglwyddiad o'r ol-gerbyd i'r Cyngor a'r gwirfoddolwyr cymryd lle yn ystâd depo ddiwylliannol y Cyngor yn Glanyrafon, Llanbadarn, Aberystwyth.








# YMGYNGHORIAD

Yn 2017 fe wnaeth Llywodraeth Cymru cychwyn ar ymgynghoriad 'Symud Cymru Ymlaen: Rheolaeth Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol'; mae'r cynnig yn edrych ar nifer o bynciau, o pysgodfeydd, coedwigaeth, tirweddau dynodedig, ansawdd amgylcheddol, amaethyddiaeth a mynediad. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r eitemau hyn gan yr Is-bwyllgor a thrafodwyd mewn cyfarfod llawn o'r FfMLI ar 19eg o Hydref 2017; cyflwynwyd ymateb trylwyr i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ym Mis Medi 2017.

# CYFRANIAD GWIRFODDOLWYR

Un o bryderon rheolaidd y FfMLl yn y blynyddoedd diwethaf yw y broblem o sut i gynyddu cyfranogiad gwirfoddol o gofalu ar ôl ein llwybrau. Mae yna dri barti gwirfoddol mewn bodolaeth ers nifer o flynyddoedd; yn Aberystwyth, Llanbed ac Aberteifi. Maent yn cwblhau gwaith cynnal a chadw yn rheolaidd ar gatiau, sticlau a pontydd o dan oruchwyliaeth y Ceidwaid. Fe wnaeth astudiaeth gan y FfMLl dangos fod y trefniant yma yn gweithio yn dda ac fod ymdrechion cyson wrth y gwirfoddolwyr yn gyfatebol i 1.3 aelod o staff ychwanegol. Fodd bynnag mae'r bosibilrwydd o ehangu y weithgaredd yma yn gyfyngedig iawn heb i'r Cyngor cyflogi Ceidwaid ychwanegol.

Un ffordd ymlaen oedd i ddatblygu Cynllun Mabwysiadu Llwybr, lle gallai gwirfoddolwyr gael hyfforddiant i gyflawni dyletswyddau  ysgafn. Yr ydym wrth ein bodd bod Cyngor Sir Ceredigion wedi dod o hyd i ffynonellau i ddechrau y Cynllun yma, maent wedi cyflogi aelod o staff llawn amser ers Ebrill 2017 i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr newydd. Yn ystod y flwyddyn newydd fe wnaeth dros 45 o bobl gofrestru i gymryd rhan yn y Cynllun. Maent eisoes wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r llwybrau ac wedi rhoi dros 775 awr o'u amser i ofalu am lwybrau y Sir.






Ardal arall lle mae gwirfoddolwyr wedi helpu y tîm Hawliau Tramwy yw yn y swyddfa. Maent wedi bod yn sganio a digido hen gofnodion fel y gall staff gael mynediad cyflym i'r wybodaeth ar y cyfrifiadur gan ddefnyddio CAMs (Countryside Access Management Software)

Beth mwy ellir gael eu wneud? Mae yna bosibilrwydd i grwpiau cymunedol lleol i gymryd rhan. Er enghraifft, mae yna grŵp yn Aberystwyth wedi codi £6000 mewn grantiau ac wedi trefnu 500 awr o waith gwirfoddol  i wella y llwybrau ym Mharc Natur Penglais. Felly mae'r her yn mynd allan ar draws Ceredigion. A ydych eisiau llwybrau gwell yn agos i'ch cartref i gerdded neu i gerdded y ci? Mae'r Cyngor yn gwneud beth maent gallu, ond mae angen help trigolion y Sir. Nid oes gan pawb yr amser na'r gallu i cynnal a chadw y llwybrau, ond gall nifer o bobl cadw llygad ar y llwybrau gan ymuno a'r Cynllun Mabwysiadu Llwyr. Yn ychwanegol i hyn, gall rhai unigolion neu grwpiau codi ychydig o arian yn lleol i bryni gât hunan gaeedig. Y byddai ailosod sticil efo gât mewn cymuned yn gwneud cerdded yn haws a mwy pleserus i gerddwyr cŵn a mamau efo plant  ifanc. Os yr ydych yn meddwl y gallwch helpu yna cysylltwch efo Tîm Hawliau Tramwy y Cyngor.

# CERBYDAU HAMDDEN YNG NGHEFN GWLAD

Oherwydd ei fod yn weithgaredd cefn gwald dadleuol ac amlwg, mae'r Fforwm Mynediad Lleol wedi ystyried y materion sy'n effeithio ar y defnydd o gerbydau hamdden nifer o weithiau. Er y bod sylw wedi cael eu denu at y difrod sy'n cael eu wneud ar y llwybrau, nid oes llawer o sylw wedi cael eu wneud ar y defnydd cyfreithlon o Gerbydau Hamdden fel modd o mynediad i gefn gwald. Nid yw pawb yn mwynhau y cefn gwald yn yr un modd. Mae rhaid ystyried ffactorau fel oedran neu iechyd a gall effeithio ar gallu rhywun i gerdded, beicio neu marchogaeth. Yr ydym ar achlysur pan yn defnyddio cerbydau Modur Hamdden, wedi rhoi cymorth i eraill sydd yn defnyddio'r cefn gwald. Yr ydym hefyd yn deall ar achlysur y gall Cerbydau Modur Hamdden gael effaith ar mwynhad defnyddwyr eraill ar y Cefn Gwald. Er hyn mae ardaloedd i'w gael lle nad oes angen hyn fod yr achos. Un o'r problemau yr ydym yn wynebu yw mae'r niferoedd o lwybrau y gallwn defnyddio efo moduron wedi lleihau oherwydd deddfwriaeth. Mae hwn yn arwain at defnydd mwy dwys o'r cilffyrdd sydd ar ôl, sydd yn arwain at anghyfleustra i defnyddwyr tir eraill ac yn debyg i arwain at cynnydd mewn difrod i'r llwybrau.

Er y mae gan yr awdurdod priffyrdd cyfrifoldeb ar y llwybrau yma, mae'n afrealistig i disgwyl nhw i gael yr adnoddau angenrheidiol i cynnal a chadw y llwybrau cerbydol. Dros y 10 mlynedd diwethaf mae'r sefydliad Treadlightly wedi dod o hyd i gwirfoddolwyr a adnoddau i helpu cwblhau gwelliannau ar y llwybrau. Mewn rhai Siroedd efallai mae angen edrych mewn i'r rhwystrau diwylliannol sydd mewn lle er mwyn gallu gweithio efo asiantaethau gwirfoddol. Yng Ngheredigion ger Soar y Mynydd yn ardal Llyn Brianne, mae Treadlightly wedi addo i arolygu yr ardal yn rheolaidd. Maent hefyd wedi dweud y byddant yn neud ychydig o'r gwaith cynnal a chadw gofynnol ar hyd y llwybrau poblogaidd lle mae Cerbydau Modur yn cael eu ddefnyddio. Fe fydd hyn yn brawf da i weld sut mae sefydliadau gwirfoddol yn gallu lleihau yr angen am adnoddau cyhoeddus.

Mae'r broblem efo defnyddwyr eraill yn aml yn cael eu achosi gan nifer fach iawn o bobl. Efo'r defnydd o Cerbydau Modur, y broblem mwyaf yw'r ffaith y mae difrod i lwybrau yn gallu bod yn mwy amlwg. Mae adnoddau'r heddlu wedi'i ymestyn i'r eithaf fel y mae, ond y gallent cael cymorth yn y mater os y byddai'r gyfraith yn haws, er enghraifft pe gallent atafaelu'r cerbyd ar y pryd o'r trosedd heb unrhyw rhybudd pellach.

Mae Cerbydau Modur Hamdden yn cyfrannu tuag at yr economi leol. Nid yw'n anghyffredin i gwrdd a cerbydau o pob rhan o Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Cyfandir. Mae hyn yn golygu y mae'r Cerbydau yn cael eu tanwydd yn lleol, yn bwyta ac yn aros yn lleol o fewn y Sir. Yn anffodus, nid oes unrhyw arolwg wedi'i gwblhau ar y budd economaidd o Cerbydau Modur Hamdden yn Cefn Gwlad Cymru. Y byddai hyn oleuaf yn galluogi gwrthwynebiad rhesymol ar sail gwneud penderfyniadau gan asiantaethau cyhoeddus.

Mae bron yn 10 mlynedd ers i'r prosiect Peilot Cerbydau Hamdden Mynyddoedd Cambria gael eu gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y prosiect oedd i greu rhwydwaith o lwybrau i ddefnyddwyr Cerbydau Hamdden wedi'i reoli. Ni chafodd unrhyw canlyniadau eu cyhoeddi o'r astudiaeth. Efallai nawr yw'r amser i ail ddechrau y prosiect. Beth bynnag a ddaw o hyn fe allwn sicrhau y bydd Cerbydau Hamdden ar agenda y Fforwm Mynediad Lleol o bryd i'w gilydd.



Paul Green a David Owen

# EDRYCH YMLAEN I'R FFORWM NESAF

Wrth i'r Adroddiad Blynyddol yma gael eu amgylchynu i'r amryw o sefydliadau o fewn Ceredigion sydd efo diddordeb efo'r math o waith mae'r FfMLI yn eu wneud, ac efo ae-lodaeth mewn golwg, mae'n werth tynnu sylw at y ffaith y fod y cyfnod o apwyntiad i'r FfMLI yn dod i ben ar ddiwedd haf 2018.

Rwyf yn gobeithio y bydd sawl aelod presennol yn rhoi eu enwau ymlaen i'w gael eu ail-benodi. Fe fydd eu profiad yn ddefnyddiol i fforwm newydd. Er hyn yr ydym yn edrych am aelodau newydd i'r fforwm. Ar wahân i unrhyw beth arall mae'n bwysig cofio y fod y FfMLI yn corff statudol ac mae angen gyflawni rhai anghenion statudol. Un o rhain yw aelodaeth gytbwys efo cynrychiolaeth o tirfeddianwyr, aelodau efo diddordebau yn y tir ac rhai sy'n defnyddio'r cefn gwald yn eu amser hamdden.

Mae'n amlwg bod angen cynrychioliad da o'r tirfeddianwyr ac rhai efo diddordeb amae-thyddol. Mae'r Fforwm wedi'i gwmpasu'n dda ar gyfer buddiannau megis cerdded, mar-chogaeth a defnydd o gerbydau modur. Yr hyn sydd yn rhyfeddol yw nid oes yna aelod ar y Fforwm efo gwybodaeth arbenigol o'r problemau sydd gan beicwyr yn y Sir. Mae'r Fforwm presennol efo diffyg mewnbwn o'r sector anabl. Fyddai'r sector yma efo dipyn i'w elwa wrth rhoi mewnbwn i'r Fforwm am ei anghenion ar faterion mynediad. Mae yna hefyd fater o anghydbwysedd rhywiol ar y Fforwm presennol efo prinder menywod. Dylai sefydliadau ieuenctid ystyried manteisio ar y cyfleodd mae'r Fforwm yn eu gynnig trwy gael eu gynrychioli ar y Fforwm Mynediad Lleol.

Os yw y Fforwm mynd i fod yn effeithiol mae angen iddo fod yn drefnus efo is-bwyllgorau. Mae hyn yn golygu fod angen yr aelodau gael amser i wasanaethu ar yr is-bwyllgorau.

Mantais o aelodaeth yw y gallir cyflwyno materion pwysig i'w drafod ac o bosib eu ddatrys wrth cael ymatebion oddi wrth y swyddogion priodol. Mae'n cynnig y posibilrwydd o ddylanwadu ar benderfyniadau ar yr adeg o lunio polisïau. Mae aelodaeth yn cynnig y cyfle i dylanwadu yn well ar penderfyniadau sydd yn cael eu wneud. Nid yw'n rhwydd ond mae Fforwm Mynediad Lleol sydd efo cynrychioliad eang o aelodau efo diddordeb egnïol, yn cynnig llwybr i lwyddiant.

John Morgan, Cadeirydd, Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion.







# RHAGLEN WAITH Y FFORWM
# 2017 – 2018

| **Tasg** | Dull Weithredu | Adroddiad ar drefniadau a dyddiad |
|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | Trafod fformat yr adroddiad o fewn Cyngor Sir Ceredigion. Ceisio gael cyflwyniadau oddi wrth aelodau y Fforwm. | Hydref<br>2017 |
| Hyfforddiant Aelodau | i. CAMS<br>ii. Statudol, Cylch Gwaith ac agweddau eraill<br>iii. Y pedwar hawliau cyhoeddus o Fynediad<br>iv. Cynnal a Chadw a Rhwystrau | Hydref 2017<br>Ionawr 2018<br>Mawrth 2018<br>Mehefin 2018 |
| Cynllun Mabwysiadu Llwybr | Adolygiad Parhaus | Hydref 2018<br>Mawrth 2018 |
| Gwaith Gwirfoddol | Adolygu trefniadaeth, gwaith cyfred-ol ac gwaith dyfodol | Ionawr 2018 |
| Seiclo | Rhestr o bynciau o ddiddordeb i'w gynnwys yn y ROWIP neu I gael eu gynnwys yn agenda'r Fforwm yn y dyfodol. | Hydref 2018 |
| Diogelwch Seiclo | Siaradwr o'r diddordeb beicio | Mawrth 2018 |
| Cynghorau Cymuned | Adolygiad pellach ar weithredai'r Fforwm ar bynciau'r Cyngor Cymuned | Hydref 2018 |


| Tasg | Dull Weithredu | Adroddiad ar drefniadau a dyddiad |
|---|---|---|
| Cerbydau Modur | Trefnu cyflwyniad ar effaith econom-aidd leol ac effeithiau eraill. | Mawrth 2018 |
| Weithdrefn Cynllunio y Cyngor mewn perthynas efo Hawliau Tramwy. | Eifion Jones i esbonio | Mawrth 2018 |
| Twristiaeth | Ystyried effeithiolrwydd cyhoeddus-rwydd ar gyfer cerdded, marchogaeth a gweithgareddau cefn gwald. | Ionawr 2018 |
| Ffermio | Trefnu siaradwr ar effaith hawliau mynediad cyhoeddus presennol ac yn y dyfodol ar ffermio. | Ionawr 2018 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Canfod gweithdrefnau Cyfoeth Natur-iol Cymru ar gyfer cysylltu a FfMLl | Ionawr 2018 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Darganfod gwybodaeth am weithgar-eddau a chyllideb presennol a dyfodol Cyfoeth Naturiol Cymru yng Ngheredigion sy'n dod o fewn cylch gwaith t FfMLl | Cyfarfod Arben-nig |
| Cynnydd Cyllideb Myned-iad Cyngor Sir Ceredigion | Adolygiad parhaus o gyflawniad cyll-ideb gan ddefnyddio ffurflenni cytun-edig. | Hydref 2017<br>Ionawr 2018<br>Mawrth 2018<br>Mehefin 2018 |
| Pwyllgor Craffu | Pwyllgor Craffu Byr ar hawliau myn-ediad cyhoeddus cyfredol a phapur Gwyn Lywodraeth Cymru | Mehefin 2018 |
| Prif Weithredwr, Aelodau Cabinet priodol a Swydd-ogion Hyn | Crynodeb ar weithgareddau'r FfMLl | Mawrth 2018 |
| Adolygu gweithredoedd a penderfyniadau ROWIP | Cyflwyniad gan is-bwyllgor ROWIP a Cyngor Sir Ceredigion | Ionawr 2018 |

# AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

Rhestr o aelodau a diddordebau

| Enw | Diddordeb | Dyddiad Apwyntiwyd i'r FfMLI |
|---|---|---|
| John Morgan (Cadeirydd y FfMLI) | Cerdded | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Richard Squires | Marchogaeth a Beicio | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Leonard Kersley | Cerdded, Gwir-foddoli | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Nigel Jones | Tirfeddiannwr | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Cynghorydd Gareth Lloyd (Cyngor Sir Ceredigion) | Deiliad Portffolio Perfformiad ac Economi ac yn dirfeddiannwr | N/A |
| Cynghorydd Ray Quant (Cyngor Sir Ceredigion) | Deiliad Portffolio Priffyrdd | N/A |
| Felicity Wills | Marchogaeth | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Glyn Davies | Tirfeddiannwr | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Gordon Lumby | Ecoleg, Cerdded | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Roger Fisher | Cerdded | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Simon Wright | Tirfeddiannwr | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Morgan Evans | Tirfeddiannwr | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Darryl Evans | Popeth | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Christopher John Belsey | Cerdded, Marchogaeth | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Paul Green | Gyrru Oddi ar y Ffordd | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |
| Gwilym Williams | Tirfeddiannwr | Ebrill 2016 |
| David Owen | Gyrru Oddi ar y Ffordd | 18$^{eg}$ Mawrth 2015 |

# CEREDIGION: ARDAL FFORWM MYNEDIAD LLEOL




*Reproduced from the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of HMSO*
*© Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Sir Ceredigion License No 100024419, 2018.*